RHIFYN
ISSUE
28
06.07.20

Llais Llantrisant




DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

10.07.20 - Dosbarthu Adroddiadau Diwedd y Flwyddyn
Distribution of End of Year Reports
17.07.20 - Diwrnod Ola'r Flwyddyn Addysgol
Last Day of the Academic Year
20.07.20 - Diwrnod Cau i'r Staff
Staff Closure Day
02.09.20 - Tymor yr Hydref 2020 yn dechrau i'r plant
Autumn Term 2020 begins for children

ADRODDIADAU BLYNYDDOL
ANNUAL REPORTS

Dosberthir Adroddiadau Blynyddol y plant ar ddydd Gwener, Gorffennaf 10fed. Y cyfarwyddyd eleni oedd i dorri lawr ar gynnwys yr adroddiadau hyn oherwydd y sefyllfa COVID-19. Serch hynny, mae'r staff wedi pori trwy lyfrau'r plant, eu holl asesiadau a'u nodiadau ers mis Medi ac wedi paratoi adroddiadau cynhwysfawr yn seiliedig ar waith ac asesiadau wythnosol y plant hyd at ddiwedd mis Mawrth. Eleni, byddwn yn ebostio adroddiadau'r plant atoch felly cadwch lygaid ar eich cyfrifon ebost os gwelwch yn dda. Ynghlwm â'r adroddiadau eleni bydd taflen yn nodi dosbarth newydd eich plentyn fis Medi. Unwaith eto eleni, bydd ambell i ddosbarth presennol yn cael ei hollti er mwyn creu'r dosbarthiadau newydd. Fel y gwyddoch, mae hyn i gyd yn dibynnu ar faint o blant Blwyddyn 6 sydd yn ein gadael a faint o blant oedran Meithrin sydd yn ymuno â ni yn y flwyddyn addysgol newydd.

Annual Progress Reports will be distributed on July 10th. This year, we shall email the children's reports to you so please keep an eye on your email accounts. Attached to the report will be an additional sheet noting your child's new class for September. Once again this year, some classes will be split to create the new class structures. As you know, this process all depends on how many Year 6 children leave us in the summer and how many Nursery aged children join us in the new academic year.



CROESO NÔL
WELCOME BACK



Braf iawn oedd cael gweld yr holl blant yn dychwelyd wythnos ddiwethaf. Mae pawb wedi tyfu ac wedi newid rhywfaint ers i ni eu gweld nhw nôl ym mis Mawrth! Wythnos dawel, drefnus a gwahanol oedd hi gyda'r holl blant yn mwynhau cwrdd â hen ffrindiau a chael cyfle i ddal lan gyda'u hathrawon.
Ar hyn o bryd, nid ydym yn sicr pa drefniadau fydd gennym fis Medi ond un peth sy'n sicr, bydd y staff yn gweithio'n galed i sicrhau fod ein systemau dysgu o bell a dysgu cyfunol yr un mor drefnus a chadarn ag y maent wedi bod ers mis Mawrth.
Hoffem ddiolch i bawb am eu cydweithrediad wrth i ni ddychwelyd. Roedd pob bore a phob prynhawn yn drefnus iawn gyda'r plant yn cyrraedd a gadael y safle yn drefnus a heb drafferth. Disgyblion gwych sydd gennym! Diolch hefyd i'r staff am sicrhau fod y plant yn gallu dychwelyd i amgylchedd dysgu oedd yn ddiogel ond yn hapus ac yn groesawgar ar yr un pryd!
It was great to see all the children returning last week. Everyone has grown and some have changed and seem so grown up since we saw them last in March! We had a very quiet, organised and somewhat different first week back with all the children enjoying seeing their old friends and having the opportunity to catch up with their class teacher.
At this moment in time, we are unsure as to how September will appear but one thing is sure, the staff will continue to work hard to ensure that our online distance learning and blended learning opportunities will still be as organised and robust as they have been since March.
We should like to thank everyone for their cooperation since returning on June 29th. Each morning and afternoon was extremely organised with the children arriving and leaving the school site in an organised and fuss-free manner. Our pupils are the best! A big thank you, also, to the staff for ensuring that the children were able to return to a safe, yet happy and welcoming, environment!

Canrannau y disgyblion oedd eisiau dychwelyd *Percentages of pupils wishing to return*			
Derbyn *Reception*	**71%**	**Blwyddyn 1** *Year 1*	**80%**
Blwyddyn 2 *Year 2*	**73%**	**Blwyddyn 3** *Year 3*	**90%**
Blwyddyn 4 *Year 4*	**89%**	**Blwyddyn 5** *Year 5*	**78%**
Blwyddyn 6 *Year 6*	**90%**	**Ysgol Gyfan** *Whole School*	**81%**